Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? [Darllenwch ef yn eich porwr.]

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




**Rhifyn 278 (Cymru) - 17 Awst 2020**

## Canfasiad 2020: rheoli'r canfasiad personol

Fel y nodwyd yn y canllawiau a gynhwysir yn ein hadnodd ystyriaethau allweddol ar gyfer canfasiad 2020, ac fel yr amlygwyd yng nghronicl canfasio Swyddfa'r Cabinet a gyhoeddwyd ddydd Gwener 31 Gorffennaf, mae'n ofynnol o hyd i EROs fodloni eu dyletswyddau o ran y canfasiad, gan gynnwys ymweld ag aelwydydd lle bo hynny'n ddiogel, a dylid ystyried y canllawiau iechyd cyhoeddus diweddaraf wrth wneud felly.

Os na allwch, er gwaethaf eich ymdrechion gorau, fodloni'r gofynion deddfwriaethol o ran ymweld ag aelwydydd fel rhan o'r canfasiad o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig, dylech gofnodi'ch proses a'r rhesymau dros eich penderfyniad.

Mae cyfyngiadau sy'n ymwneud â'r coronafeirws yn parhau i esblygu ac amrywio'n lleol, felly bydd rhaid i chi ddwyn yr holl amgylchiadau lleol i ystyriaeth wrth gynllunio ar gyfer y canfasiad personol yn eich ardal, a'i reoli. I'ch cefnogi o ran rheoli hyn yn ymarferol, efallai y bydd y canllawiau hyn gan Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ynghylch gweithio'n ddiogel yng nghartrefi pobl eraill yn ystod COVID-19 yn ddefnyddiol.

Tra nad yw'r rhain wedi eu hysgrifennu yn benodol ar gyfer gweinyddwyr etholiadol, maent yn cynnig canllawiau defnyddiol o ran sut i gynnal asesiad risg COVID-19 o'ch prosesau, a sut i leihau'r risg i'r lefel ymarferol leiaf. Gallai hyn fod o gymorth i chi o ran pennu'r ffordd orau i gyflawni gweithgarwch canfasio personol yn lleol, a sut i weithio orau gyda gwahanol fathau o eiddo.

Rydym hefyd wedi ehangu'r canllawiau yn ein hadnodd ystyriaethau ar gyfer canfasiad 2020 i gynnwys ystyriaethau penodol ychwanegol ar gyfer rheoli canfasio o ddrws i ddrws yn eich ardal, gan gynnwys camau y dylech eu cymryd i helpu i reoli rhyngweithiadau a lleihau'r risg i ganfaswyr a phreswylwyr fel ei gilydd. Mae'r canllawiau ychwanegol hyn wedi eu hadolygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau eu bod yn adlewyrchu eu cyngor diweddaraf.

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Canfasiad 2020: rheoli'r canfasiad personol**

Canllawiau i EROs ynghylch rheoli'r canfasio personol yng nghyd-destun y sefyllfa iechyd cyhoeddus gyfredol.

**Safonau Perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol**

Gwybodaeth ynghylch cyhoeddi offerynnau ac adnoddau i gefnogi EROs o ran defnyddio'r safonau perfformiad.

**Etholiadau mis Mai 2021: diweddariad**

Diweddariad ar ein cynlluniau i gefnogi gweinyddwyr gyda pharatoi at etholiadau mis Mai 2021, a'u cyflawni.

**Tryloywder mewn ymgyrchu digidol: ymgynghoriad ar argraffnodau digidol**

Gwybodaeth am ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar argraffnodau digidol, a dolen iddo

**Swydd ar gael yn y Comisiwn Etholiadol**

Gwybodaeth am swydd a sut i wneud cais.

Rydym yn cyhoeddi bwletinau EA yn rheolaidd. **Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael fan hyn.**

Os hoffech drafod ymhellach eich cynlluniau canfasio personol, cysylltwch â infowales@electoralcommission.org.uk..

## Safonau Perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Yn ychwanegol at Fwletin, a wnaeth amlygu cyhoeddi ein safonau perfformiad newydd ar gyfer EROs, rydym nawr wedi cyhoeddi adnoddau ychwanegol i gefnogi EROs o ran defnyddio'r safonau i'w helpu i ddeall a gwella eu perfformiad.

Mae'r adnoddau newydd, sydd ar gael trwy'r dudalen safonau perfformiad ar ein gwefan, yn cynnwys:

- Canllawiau ynghylch gosod dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs), sy'n ceisio helpu EROs a'u timau i ddatblygu KPIs i fesur effaith eu gweithgareddau a'u cefnogi wrth osod targedau a'u helpu i osod gwaelodlin ar gyfer eu perfformiad.
- Adnodd ar gyfer cyrchu data am y boblogaeth a thai, sy'n amlinellu pa ddata sydd ar gael, ac yn darparu dolenni i'r llefydd y gellir cael mynediad ato.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein hadnoddau ymhellach, gan gynnwys templedi adrodd ac adnodd ar gyfer defnyddio data, a byddwn yn cadarnhau mewn Bwletin yn y dyfodol pryd byddant wedi eu cyhoeddi.

## Etholiadau mis Mai 2021: diweddariad

Yn dilyn ein diweddariad diweddaraf ym Mwletin 268, rydym am roi rhagor o wybodaeth i chi ynghylch ein cynlluniau i'ch cefnogi o ran cyflawni etholiadau mis Mai 2021.

Rydym yn parhau i weithio gyda chydweithwyr ar draws y gymuned etholiadol, gan gynnwys AEA, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru, Llywodraeth Cymru, SOLACE, a Swyddfa'r Cabinet, i ystyried effaith bosib y pandemig coronafeirws ar gyflawni etholiadau mis Mai 2021. Mae'r meysydd trafod yn cynnwys y senarios iechyd cyhoeddus amrywiol y gallwn fod yn eu hwynebu, y potensial ar gyfer newid deddfwriaethol a'r dyddiadau cau ar gyfer unrhyw benderfyniadau o'r fath, y goblygiadau cyllid yn deillio o unrhyw newidiadau polisi neu ddeddfwriaeth, a pha wybodaeth y bydd ei hangen ar bleidleiswyr i'w helpu i gymryd rhan yn yr etholiadau.

Rydym ninnau'n gweithio tuag at baratoi ar gyfer ein swyddogaethau mewn perthynas â chanllawiau ac ymwybyddiaeth gyhoeddus, a'u cyflawni, i sicrhau bod gan weinyddwyr etholiadol, ymgyrchwyr a phleidleiswyr yr hyn sydd ei angen arnynt i helpu i sicrhau y caiff yr etholiadau eu cyflawni'n ddiogel ac yn effeithiol.

I helpu i lywio ein cynlluniau, byddwn yn cyfarfod cyn bo hir â Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a'r Bwrdd Cydlynu ac Ymgynghori Etholiadol (ECAB) i drafod yr heriau o ran cyflawni'r etholiadau a sut y gellid mynd i'r afael â nhw. Bydd mewnbwn y grwpiau hyn yn hanfodol i'n helpu i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y meysydd sy'n peri'r pryder mwyaf i'r gymuned etholiadol, ac ein bod yn gallu blaenoriaethu ein canllawiau a'n cefnogaeth yn unol â hynny.

Byddwn hefyd yn defnyddio amrywiol weithgorau AEA i drafod manylion ein rhaglen canllawiau a chefnogaeth, gan gynnwys pa

**Gallwch hefyd danysgrifio i'n *Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol*.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i staff yn eich tîm. Bydd hyn yn helpu i ni sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio** unrhyw bryd.

gynhyrchion ychwanegol sydd eu hangen i'ch cefnogi chi i gyflawni'r etholiadau yn llwyddiannus yng ngolau'r cymhlethdod arbennig y byddwch yn ei wynebu yn ogystal â helpu i reoli effaith y coronafeirws. Byddwn hefyd yn gweithio gyda chyrff iechyd cyhoeddus i sicrhau bod ein canllawiau mor ddefnyddiol â phosib ac yn adlewyrchu'r cyngor iechyd cyhoeddus diweddaraf.

Byddwn yn darparu diweddariad pellach ddechrau mis Mai, ac yn disgwyl gallu darparu rhagor o wybodaeth y pryd hynny o ran beth byddwn yn ei ddarparu a phryd.

Yn y cyfamser, rydym yn diweddaru ein canllawiau craidd ar gyfer etholiadau mis Mai 2021. Bydd y gwaith hwn yn parhau dros yr haf ac rydym yn bwriadu cyhoeddi'r gyfres gyfan erbyn diwedd mis Medi. Byddwn yn eich diweddaru mewn Bwletin yn y dyfodol pan fydd y gwaith hwn wedi ei gyflawni.

Rydym yn gwerthfawrogi mai adeg heriol yw hon i bawb; os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os gallwn ddarparu unrhyw gymorth pellach, cysylltwch â infowales@electoralcommission.org.uk..

---

## Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar argraffnodau digidol

Yr wythnos ddiwethaf, fe wnaeth Llywodraeth y DU lansio ymgynghoriad ar argraffnodau digidol.

Dyma gyfle i gyflawni newid go iawn i bleidleiswyr a rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o bwy sy'n ceisio cysylltu â nhw ar-lein.

Mae defnydd offerynnau digidol ar gyfer ymgyrchu mewn etholiadau a refferenda yn helaeth, ac rydym yn gwybod bod llawer o bleidleiswyr yn fwyfwy pryderus ynghylch y gwir, tryloywder, a thargedu hysbysebion gwleidyddol.

Rydym wedi argymell estyn gofyniadau argraffnodau i ddeunydd etholiadau a refferenda digidol, felly rydym yn edrych ymlaen at ystyried cynigion y Llywodraeth a'r cyfle i gyflawni buddion go iawn ar gyfer pleidleiswyr, pleidiau, ac ymgyrchwyr.

Mae Swyddfa'r Cabinet yn ceisio safbwyntiau ar gwmpas technegol y drefn argraffnodau digidol newydd a fydd yn cael eu cymhwyso at bob etholiad mewn cymhwysedd a gedwir yn ôl (gweler tudalen 18 y ddogfen am fanylion).

Mae'r ymgynghoriad yn cau ar am 11:45pm 4 Tachwedd 2020.

Byddwn yn cyhoeddi copi o'n hymateb ysgrifenedig cyflawn i'r ymgynghoriad yn y man.

---

## Swydd ar gael yn y Comisiwn Etholiadol

Rydym yn recriwtio ar hyn o bryd am Reolwr Rhanbarthol - Rhanbarth y Dwyrain i ymuno â'n Tîm Cefnogaeth a Gwelliant. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 23 Awst 2020.

Os hoffech drafodaeth anffurfiol am y rol, cysylltwch â Mel Davidson, Pennaeth Cymorth a Gwelliant ar 020 7271 0552.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y swydd hon ewch i dudalen recriwtio ein gwefan .

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn:  0333 103 1929

Textphone: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**

© Y Comisiwn Etholiadol 2020